

Y Teulu

Darllen: Effesiaid 5:22–6:4

Hyd y gwyddom, person senl oedd Paul. Ond yn ei lythyr at yr Effesiaid mae'n trafod gofynion y teulu. Fe all adnodau agoriadol y darlleniad hwn gythruddo sawl un, ac felly mae'n rhaid pwysu a mesur yn ofalus a chofio mai dyn ei gyfnod oedd Paul. O fewn y gymuned Iddewig, prin fod lle amlwg i'r ferch. Bob bore, byddai'r Iddew gwryw yn diolch i Dduw nad oedd wedi ei greu yn genedl-ddyn, yn gaethwas nac yn ferch. Ferched, peidiwch â gwylltio! Doedd gan y ferch ddim hawliau cyfreithiol o gwbl, a'i gŵr oedd yn gyfrifol amdani. Dowch i ni, felly, ystyried lle'r ferch yn y gymdeithas Iddewig. I'r Iddew, roedd i briodas le anrhydeddus, ond yng nghyfnod Paul roedd ysgariad yn weithred hawdd ei chyflawni. Dyma grynhoi'r gyfraith ynglŷn ag ysgariad, 'Os bydd dyn wedi cymryd gwraig a'i phriodi, a hithau wedyn heb fod yn ei fodloni am iddo gael rhywbeth anwedddus ynddi, yna y mae i ysgrifennu llythyr ysgar iddi, a'i roi yn ei llaw a'i hanfon o'i dŷ' (Deuteronomium 24:1). Beth yn union yw ystyr 'cael rhywbeth anwedddus ynddi'? Credai rhai Rabiniaid Shammai mai godineb a olygir, ond yr oedd Rabiniaid mwy rhyddfrydol Hillel yn rhoi tragwyddol heol i'r gŵr ysgaru ei wraig. Er enghraifft, os byddai wedi rhoi gormod o halen yn ei fwyd, neu wedi siarad yn sarhaus am ei rhieni yng nghyfraith yng nghlyw ei gŵr, gellid ei hysgaru. Erbyn cyfnod Paul, roedd llawer o wragedd ifanc Iddewig yn gwrthod priodi am fod eu safle fel wragedd yn amhendant ac ansicr. Roedd pethau'n waeth o lawer o fewn y diwylliant Groegaidd gan fod y wraig wedi ei halltudio o'r gymdeithas yn gyfan gwbl; prin y gwelid hi allan ar y stryd ar ei phen ei hun, ac ni fyddai'n bresennol mewn gwleddoedd cyhoeddus. Dan yr Ymerodraeth Rufeinig, yr un oedd y tueddiadau o briodi ac ysgaru, a cheir enghreifftiau o wragedd yn priodi am y trydydd tro ar hugain. Mae'n rhaid cofio mai yn y cyd-destun hwn yr oedd Paul yn ysgrifennu.

Trown unwaith eto at yr adnod, 'Chwi wragedd, byddwch ddarostyngedig i'ch gwŷr fel i'r Arglwydd' (Effesiaid 5:22). Mae Paul yn mynegi sawl

peth am gariad gŵr at ei wraig. Mae'n rhaid iddo ei charu yn union fel y mae Crist wedi caru ac wedi ei roi ei hun dros yr Eglwys. Nid cariad hunanol, hunangar ydi hwn, ac mae'n ofynnol i'r gŵr garu ei wraig â'r un cariad ag y mae Crist wedi caru ei Eglwys. Cariad aberthol yw hwn. Cariad sy'n rhoi'r cyfan yw hwn. Felly, yr hyn y mae Paul yn anelu ato yw, nid rheolaeth a meistrolaeth dros y wraig, ond yn hytrach ei meddiannu â chariad. A dyma sylfaen y teulu. Yna, mae'n mynd ymlaen i drafod perthynas rhieni a phlant o fewn y teulu. Daw dwy elfen i'r amlwg, 'Chwi blant, ufuddhewch i'ch rhieni yn yr Arglwydd' (6:1) a 'Chwi dadau, peidiwch â chythruddo'ch plant, ond eu meithrin yn nisgyblaeth a hyfforddiant yr Arglwydd' (6:4). Mae'n rhaid cofio bod gwerthoedd un genhedlaeth yn wahanol i genhedlaeth arall. Ofer ydi dweud, 'Pan oeddwn i yn blentyn doeddwn i ddim yn cael gwneud hyn a'r llall'. Elfen bwysig arall wrth fagu plant yw cefnogaeth. Mae arwain y plentyn, a'i gefnogi, yn sicr o esgor ar gydweithrediad a chyd-ddyheu.

Myfyrdod pellach:

Pa mor bwysig ydi cydweithio a chyd-ddealltwriaeth ar yr aelwyd?

Beth yn eich barn chi ydi'r elfen bwysicaf wrth fagu plant?